





### Heddiw – Gŵyl Seiclo

Dymuniadau gorau i bawb a fydd yn cymryd rhan yn yr Ŵyl Seiclo y prynhawn yma. Rydym wedi derbyn rhestr o enwau'r plant sydd wedi cofrestru i gymryd rhan – cofiwch roi gwybod i ni faint o'r gloch y byddwch yn casglu eich plant o'r ysgol os gwelwch yn dda.

### *Today – Cycle Fest*

*Best wishes to everyone taking part in the Aber Cycle Fest this afternoon. We have received a list of the children who have registered to take part. Please let us know what time you will be collecting your child(ren) from school.*

---




### C.RH.A – cyfle olaf i archebu

Mae gennych tan 9 o'r gloch fore Llun i archebu eich tywel tê! Os hoffech archebu dau mae disgownt gyda'r côd **2AM£10**
Byddant yn eich cyrraedd cyn diwedd y tymor.

Siop CRhA Ysgol Gymraeg Aberystwyth PTA
(Cofiwch roi enw a dosbarth yn y man talu)

### *PTA – last chance to order*

*You have until 9am Monday to order your tea towel. If you would like to order both, a discount is available using the code **2AM£10***
*The tea towels will arrive before the end of term.*

Siop CRhA Ysgol Gymraeg Aberystwyth PTA
(Put your child's name and class in checkout)

---

### Diwrnodau Pontio



Bydd disgyblion **Blwyddyn 6** yn pontio i'r ysgolion uwchradd ddydd Llun a dydd Mawrth wythnos nesaf. Mae'r trefniadau eisoes wedi eu cyfathrebu gyda rhieni. Dydy disgyblion blwyddyn 6 ddim yn dod i safle'r Ysgol Gymraeg o gwbwl yn ystod y deuddydd hyn. Pob hwyl iddyn nhw.

**Bydd gweddill yr ysgol** yn pontio yn ystod y wers gyntaf ar ddydd Mawrth, gan dreulio sesiwn yn y dosbarth newydd maen nhw'n debygol o fod ym mis Medi. Bydd nodyn ym mag eich plentyn ar ddydd Mawrth yn dweud ym mha ddosbarth y treulion nhw'r bore. Byddwn yn gwerthuso'r bore yn dilyn y pontio.

Cofiwch fynd ati i drafod y newid gyda'ch plentyn mewn ffordd gadarnhaol. Er nad yw newid bob amser yn hawdd, gall eich anogaeth a'ch sicrwydd wneud gwahaniaeth mawr i'ch plentyn deimlo'n gartrefol ac yn hyderus.

### *Transitioning days*

***Year 6** pupils will be transitioning to the secondary schools on Monday and Tuesday next week. The arrangements have already been communicated with parents. Year 6 pupils will not be coming to Ysgol Gymraeg at all during these two days. Best wishes to them.*

***The rest of the school** will be transitioning during the first lesson on Tuesday, spending a session in the new class they are likely to be in come September. A note in your child's bag on Tuesday will say which class they spent the morning in. We will be evaluating the morning following the transition.*

*Please remember to approach the change positively when talking with your child. While change isn't always easy, your encouragement and reassurance can make a big difference in helping them feel settled and confident.*

---






## Mabolgampau Ysgol

Cynhelir y Mabolgampau Ysgol ar ddydd Iau yr $2^{ail}$ o Orffennaf ar Gaeau Ysgol Penweddig a'r Clwb Rygbi. (Dosbarthiadau Derbyn ar ran o gae yr Ysgol Gymraeg – hynny sy'n weddill erbyn hyn!).

Byddwn yn cychwyn am 12:45yp ar gyfer Bl.1-6 (1 o'r gloch i'r Derbyn)
Mae croeso i chi fel rhieni i ddod i gefnogi, a bydd rasys ar eich cyfer ar ddiwedd y prynhawn!

Allwch chi helpu'r G.RH.A? -
🖰 Llenwi | Mabolgampau_2026

Byddai'r G.Rh.A yn ddiolchgar iawn hefyd pe gallech eu cefnogi drwy **gyfrannu cacennau i'w gwerthu ar y stondin**, gan ddod â nhw i'r dosbarth ar fore'r Mabolgampau. Cofiwch beidio cynnwys **cnau**.

🖰 Dolen i Raglen y Mabolgampau Ysgol

## *School Sports Day – more information*

*The School Sports Day will be held on Thursday, July $2^{nd}$ on the School Field (what's left of it!) Penweddig School Field and the Rugby Club $2^{nd}$ pitch.*

*It will start at 12:45pm for Years 1–6 (and at 1:00pm Reception).*
*Parents are warmly invited to come along and support — and there will be races for you at the end of the afternoon!*

*Can you help the PTA?*
🖰 Llenwi | Mabolgampau_2026

*The PTA would also be very grateful if you could support them by **providing cakes to be sold on the stall**, and bring them to class on the morning of the Sports Day. Remember not to include **nuts**.*

🖰 Link to Sports Day Timetable

---



## Proms Ceredigion

Cynhelir Proms Ceredigion nos Iau wythnos nesaf (**$2^{ail}$ o Orffennaf**) am 7 o'r gloch yn y Neuadd Fawr. Bydd disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gerddorfa, y Côr, a bydd y Grŵp Dawns Aml-gyfrwng a Chôr yr ysgol yn perfformio hefyd. Pris mynediad yn £10. Mae'r manylion llawn eisoes wedi eu rhannu gyda'r rhieni mewn e-bost.

## *Ceredigion Proms*

*Ceredigion Proms will be held next Thursday evening (**$2^{nd}$ July**) at 7 o'clock in the Great Hall. Pupils from the school will be taking part in the Orchestra and the Choir, and the Multi-media Dance Group and School Choir will also be performing.*
*Entry price is £10. Full details have already been shared with parents via email.*

---




## Mabolgampau Cylch Aberystwyth

Bydd y Mabolgampau Cylch yn cael eu cynnal ar Gaeau Ysgol Penweddig ar **ddydd Gwener y $3^{ydd}$ o Orffennaf**. Bydd Mr Griffiths yn rhannu'r manylion gyda'r disgyblion sy'n cymryd rhan, gan gynnwys amserlen y dydd. Mae croeso i rieni ddod i gefnogi.

## *Aberystwyth Area Sports*

*The Area Sports Day will be held on the fields of Ysgol Penweddig on **Friday, $3^{rd}$ July**.*
*Mr Griffiths will be sharing the details with the pupils taking part, including the day's timetable. Parents are welcome to come and support on the day.*

---



## Tripiau haf

Byddwch yn derbyn llythyr gan yr athrawon dosbarth yn cynnwys gwybodaeth am drip haf eich plentyn.

🖰 Dyma ddolen i ffurflen ar gyfer archebu pecyn bwyd i ginio ar gyfer eich plentyn ar ddiwrnodau allan o'r ysgol megis y trip haf. Eich dewis yw i ddarparu pecyn bwyd cinio eich hunan i'ch plentyn, neu i ddychwelyd y ffurflen hon **o leiaf wythnos cyn y diwrnod** i athro/athrawes eich plentyn er mwyn i'r gegin gael gwybod mewn da bryd fod angen paratoi cinio ar gyfer eich plentyn.

## *Summer trips*

*You will receive a letter from the class teachers containing information about your child's summer trip.*

🖰 *Here is a link to a form for ordering a packed lunch for your child on days out of school such as the summer trip. Your choice is to provide your child with your own packed lunch, or to return this form **at least a week before the trip** to your child's teacher so that the kitchen is informed in good time that a packed lunch needs to be prepared for your child.*

## Cefnogaeth i deuluoedd

Ry'n ni bob amser yn ddiolchgar am gymorth ac arweiniad y tîm cymorth i rieni a theuluoedd. Dyma ddolen i lyfryn ar-lein ganddynt, yn ogystal â dolenni i'w Facebook, Instagram ac Hysbysfwrdd.

Cymorth Rhianta a Teulu - Cyngor Sir Ceredigion

## *Support for families*

*We are always grateful for the support and guidance provided by the Parent and Family Support Team. Here is a link to one of their online booklets, along with links to their* Facebook, Instagram *and* Noticeboard.

Parenting and Family Support - Ceredigion County Council

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:

- ~~Mabolgampau Meithrin : Mehefin 25$^{ain}$~~
- Mabolgampau gweddill yr ysgol : Gorffennaf 2$^{ail}$
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16$^{eg}$
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17$^{eg}$

### *Summer term 2026 important dates:*


- ~~*Meithrin Sports Day : June 25$^{th}$*~~
- *Sports Day for rest of school : July 2$^{nd}$*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16$^{th}$*
- *Last day of term : July 17$^{th}$*


**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**26/06/2026**

www.ysgolgymraeg.cymru




## Tocynnau am ddim - Free tickets for Musicfest Aberystwyth!

Mae Musicfest Aberystwyth yn un o brif ŵyliau cerddoriaeth rhyngwladol Prydain. Mae'n gyfle i brofi rhai o gerddorion clasurol gorau'r byd rhwng yr 18 – 25 o Orffennaf. Mae pob tocyn i bob cyngerdd am ddim i bawb dan 25 oed. I weld rhaglen yr ŵyl ewch i www.musicfestaberystwyth.org. I archebu tocynnau am ddim i'r rhai dan 25 oed, cysylltwch â Swyddfa Docynnau Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar 01970 623 232.

Musicfest Aberystwyth is one of the UK's main international music festivals. It's a rare opportunity to experience some of the best classical musicians in the world from the 18 – 25 of July. All tickets to all concerts are free for everyone under 25. To see the festival programme go to www.musicfestaberystwyth.org. All free tickets for under 25's must be booked via the Box Office at Aberystwyth Arts Center on 01970 623 232.